CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 26ain GORFFENNAF 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Ms Linda Jones (Cadeirydd), Mr Einion Parry Williams, Mr Edward J Thomas, Mrs Janet Hughes, Mr John D Pritchard, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen & Mr Meirion Thomas. Mr J Alun Foulkes (Clerc). Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Mrs Barbara McKeaveney, Mrs Catherine Jean Hughes a Mr Raymond Evans. Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 Nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar rhaglen y cyfarfod.

2 ADRODDIAD YR HEDDLU.

2.1 Croesawyd PCSO Alison Williams ac fe cafodd aelodau y cyfle i ddwyn sawl cwyn parcio sydd yn achosi anhawster trwy'r pentref ac hefyd cwynio gor-yrru tu allan Stad Maes Hyfryd yn gynnar yn y bore a ger Lon Stesion. Fe cafwyd adroddiad digwyddiad Taflu Cerrig ar yr A55 ger Y Graig ac atgoffwyd yr aelodau I cyfathrebu gyda'r Heddlu trwy ebost canolog. Diolchwyd iddi am fynychu'r cyfarfod.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes ar y canlynol:

3.1 Safle Ymgynghoriad y Teithwyr – adroddiad yn dilyn penderfyniad y Cyngor Sir (25/7/2016). Dosbarthwyd datganiad y Cyngor Sir i pob aelod.

3.2 Problemau Carthffosiaeth Dŵr – adroddiad yn dilyn cyfarfod gyda Dŵr Cymru.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 28ain Mehefin 2016 yn gywir. (ET/IO).

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 **Hysbysfwrdd Newydd** – derbyniwyd pris £777.98 + TAW wedi ei dderbyn oddiwrth Cwmni Greenbarnes a disgwylir ei osod cyn diwedd Mis Hydref.

Arwyddo..... 1.

6 PARC GWYDDONIAETH

6.1 Nodir fod gwaith creu mynedfa newydd i'r wedi cychwyn.

6.2 Dywedodd y Clerc mai Cais Amlinellol sydd wedi ei dderbyn hyd yn hyn ac nad oedd yn ymwybodol fod Cais Llawn wedi ei gyflwyno gerbron y Cyngor Sir.

7 MATERION CAEAU CHWARAE.

7.1 DIM ADRODDIAD.

8 MATERION LLWYBRAU.

8.1 Nodwyd fod angen trin y gwrych ar Llwybr 12.

8.2 Dangoswyd pryder ac fe nodwyd fod dŵr yn llifo ar hyd Llwybr 21 ac fod angen dwyn sylw i'r Cyngor Sir trwy lythyr.

9 MATERION PRIFFYRDD.

9.1 Dangoswyd pryder ac fe nodwyd fod angen sylw, cynnal a chadw i'r gyliau ar hyd yr A5 trwy'r pentref.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD & PENDERFYNIADAU Y CYNGOR SIR.

10.1 Cais ol weithredol ar gyfer dymchwel storfa presennol ynghyd a codi storfa newydd yn:
LLEOLIAD: Plas Farm Ltd, Stad Diwydiannol, Gaerwen. Rhif Cais: 33C20X/3.
Penderfyniad – **DIM SYLWADAU.**

10.2 Cais Llawn ar gyfer Codi Modurdy / Gweithdy Preifat yn:
LLEOLIAD: The Barn, Durham Lodge, Gaerwen. Rhif Cais 33C150B.
Penderfyniad - **DIM SYLWADAU.**

10.3 Penderfyniad Cais am faterion a gadwyd yn nol ar gyfer codi Parc Gwyddoniaeth, Creu Maes Parcio, Gosod Paneli Solar ynghyd a Chreu Mynedfa Newydd i gerbydau ar dir yn:
LLEOLIAD: Cefn Du, Gaerwen. Rhif Cais: 33C304C/DA/ECON.
Penderfyniad: CANIATĀD.

Arwyddo.....

11 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Gorffennaf 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

11.2 **Gweinyddu & Rheoli Risg:**

11.2.1 Cytunwyd petai Cyng Raymond Evans yn bwriadau mynychu Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru yn Llanelwedd, bydd y Cyngor yn talu costau archebu, sef £80.00.

11.3. **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 11.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

205	Dafydd Hughes	Torri Caeau Chwarae	£ 350.00
206	Dafydd Hughes	Torri Llwybr Rhif 16	£ 110.00
207	J Alun Foulkes	Cyflog Mis Gorffennaf 2016	£ 240.00
208	HMRC	PAYE	£ 60.00
209	O G Jones	Torri Llwybrau	£ 320.00 + TAW £64.00
210	O G Jones	Torri Gwrych Cae Chwarae	£ 50.00 + TAW £10.00
211	Dafydd Hughes	Torri Caeau Chwarae	£ 175.00

12. CÔD YMDDYGIAD.

12.1 Mabwysiadawyd yr aelodau y Côd Ymddygiad Diwygedig er mwyn ufuddhau rheolau statudol y Cyngor

13. ADRODDIADAU.

13.1 DIM ADRODDIAD.

14. GOHEBIAETH

14.1 Grid Cenedlaethol – Newyddion Diweddaraf Gwaith Ardal Afon Menai – eisoes wedi ei drafod ac fe nodir newyddion diweddaraf y prosiect.

14.2 Dogfen Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2015/2016 – nodwyd, er gwybodaeth yn unig.

15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 27ain MEDI 2015.

15.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:30yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.